

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gofal Deintyddol Teeth for Life
(Magwyr), Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 02 Hydref 2025

Dyddiad cyhoeddi: 02 Ionawr 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom.....	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad.....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Teeth for Life (Magwyr), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 02 Hydref 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd wyth gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y cleifion yn canmol y practis, y staff a'r gofal. Roedd y staff yn broffesiynol a gwnaethant ddangos mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y sefydliad. Roedd polisiâu'r practis a hyfforddiant y staff yn diogelu hawliau a chydaddoldeb y cleifion. Gwelsom fod y practis yn ymdrin ag anghenion a dewisiadau'r cleifion mewn ffordd a oedd wedi'i theilwra at yr unigolyn, gan ddarparu amgylchedd a oedd yn cefnogi preifatrwydd a chyfrinachedd ac yn hyrwyddo urddas y cleifion a pharch tuag atynt.

Roedd dogfennau allweddol i gleifion, gan gynnwys y safonau deintyddol a'r rhai a oedd yn amlinellu gwybodaeth y practis, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd ystod ehangach o fformatau hygyrch ar gael yn hawdd.

Er eu bod i'w gweld ym mhob rhan o'r practis, nid oedd pob ymatebydd i holiadur AGIC i gleifion yn ymwybodol o fanylion cyswllt brys y practis, a oedd yn dangos y gellid cryfhau'r prosesau cyfathrebu yn hyn o beth. Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd y geg i'w gweld.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis roi adolygiadau wythnosol o atgyfeiriadau pellach ar waith er mwyn cefnogi parhad gofal rhwng gwasanaethau
- Darparu gwybodaeth mewn ystod ehangach o fformatau er mwyn sicrhau hygyrchedd i gleifion ag anghenion cyfathrebu gwahanol
- Darparu gwybodaeth fwy cadarn i gleifion mewn perthynas â beth i'w wneud os bydd materion deintyddol yn codi yn dilyn apwyntiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd a oedd yn dangos parch tuag at anghenion a dewisiadau unigol
- Roedd apwyntiadau yn cael eu cynnig ar safleoedd gwahanol er mwyn sicrhau y gellid cael gwasanaeth amserol a gofal gan yr un gweithiwr deintyddol proffesiynol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn daclus ac yn drefnus, ac roedd prosesau ar waith i ymateb i unrhyw faterion ynglŷn â'r amgylchedd ffisegol. Roedd amserlen lanhau gadarn yn

cefnogi trefniadau glanhau cyffredinol. Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr addas ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol rhwng defnyddiau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y peiriant uwchsain wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar. Nid oedd pob ymarferydd deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant dihalogi penodol. Roedd cyfarpar diogelwch trydan, nwy a tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar i gadarnhau eu bod yn ddiogel.

Rhoddwyd rhagofalon addas ar waith i ymateb i gleifion a oedd yn nodi bod ganddynt salwch anadlol. Roedd cyfleusterau a chontractau rheoli gwastraff ar waith ac roedd y trefniadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn briodol. Roedd arferion creu delweddau pelydr-X yn seiliedig ar brotocolau priodol ac roedd archwiliadau radiograffeg mewnol yn cael eu cwblhau. Nodwyd anghysondebau mewn cofnodion clinigol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol sydd ei angen i lefelau sy'n briodol i'r rôl
- Rhoi gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau ar waith yn gadarn
- Ystyried gwiriadau o'r amgylchedd a chyfarpar mewn ffordd fwy rhagweithiol er mwyn atal problemau rhag codi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân, taclus a threfnus iawn yr olwg
- Roedd canllawiau a dogfennau yswiriant perthnasol wedi'u harddangos i gefnogi ymarfer clinigol, ennyn hyder y cleifion a sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau yn y gweithle.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn teimlo bod lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac adnoddau priodol i'w galluogi i ateb galw eu swyddi a darparu gofal a chymorth da i'w cleifion. Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith a dywedodd y staff eu bod yn teimlo'n hyderus i fynegi unrhyw bryderon neu awgrymiadau. Gwelsom gydberthnasau gwaith da ac amgylchedd cadarnhaol. Unwaith y bydd wedi cael ei hymgorffori'n llawn, bydd system electronig ar gyfer rhannu, cofnodi a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant, rhybuddion diogelwch, gofynion personél a pholisïau a gweithdrefnau yn cefnogi rheolwr y practis yn ei rôl yn fwy effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau rhai dogfennau allweddol fel bod eu cynnwys a'u cyflwyniad yn gyson ac yn broffesiynol.

- Dylid coladu adborth, pryderon neu gwynion cleifion er mwyn datblygu'r practis yn barhaus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Y defnydd o raglenni digidol a deallusrwydd artiffisial mewn agweddau clinigol a gweithredol ar y gwasanaethau a ddarperir
- Cydberthnasau cadarnhaol gyda darparwr gofal deintyddol eraill yn yr ardal a chyfeirio at wasanaethau eraill.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis hwn yn 'dda iawn' a bod y cyfleusterau yn 'lân iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn nodi'n rheolaidd fod y practis yn "rhagorol". Dywedwyd bod y staff yn "hynod ofalgar", "hapus ac addysgiadol", "proffesiynol" a'u bod yn "eich trin â pharch bob amser". Dywedodd un claf fod y driniaeth yr oedd wedi'i chael wedi cael effaith gadarnhaol arno:

"Roedd iechyd fy ngheg mewn cyflwr gwael cyn i mi ddod i'r sefydliad hwn, nawr mae'n dda iawn."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'r cleifion. Roedd hyn yn cynnwys taflenni gwybodaeth am ofal y geg yn ystod beichiogrwydd a rhoi'r gorau i smygu. Yn ogystal, daethpwyd o hyd i esboniad clir o rôl iechyd y geg o ran atal clefyd y deintgig ar wefan Teeth for Life.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd pob trafodaeth a glywsom rhwng staff y practis a'r cleifion yn barchus. Er bod gan y dderbynfa a'r ardal aros gynllun agored, roedd desg y dderbynfa ar ffurf arbennig ac yn cynnwys sgrin breifatrwydd er mwyn diogelu gwybodaeth y cleifion yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb a thros y ffôn. Roedd gan y deintyddfeydd ddrysau cadarn ac roedd bleinds dros y ffenestri er mwyn sicrhau preifatrwydd i'r cleifion yn ystod apwyntiadau. Roedd cytundeb cyfrinachedd cleifion ar waith, a nododd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i staff eu bod naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn yr ardal aros.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gallai cleifion wneud apwyntiadau dros y ffôn, ar-lein, neu'n bersonol ac roedd oriau agor y practis wedi cael eu pennu er mwyn sicrhau y gallai'r cleifion gael

gwasanaeth. Dywedodd pob un a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion ei bod yn 'eithaf hawdd' neu'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un. Roedd rhifau ffôn mewn argyfwng a'r tu allan i oriau i'w gweld y tu allan i'r practis, ar wefan y practis ac roeddent yn cael eu darparu ar beiriant ateb y practis hefyd. Fodd bynnag, ni wnaeth pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC i gleifion nodi eu bod yn ymwybodol o'r manylion hyn, neu eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i gysylltu â'r practis pe baent yn dioddef problemau deintyddol brys, megis haint, ar ôl cael triniaeth.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu gwybodaeth fwy cadarn i gleifion mewn perthynas â beth i'w wneud os bydd materion deintyddol yn codi yn dilyn apwyntiadau.

Amserol

Gwelsom fod yr apwyntiadau dyddiol a oedd ar gael i'r cleifion yn hyrwyddo camau i ddarparu gofal deintyddol arferol, brys ac mewn argyfwng. Roedd apwyntiadau brys ar gael bob dydd a byddai'r apwyntiad nesaf a oedd ar gael yn cael ei neilltuo i'r rhai ag anghenion brys. Roedd rhestr o apwyntiadau a oedd yn cael eu canslo a'r opsiwn i gleifion fynd i safleoedd Teeth for Life ym Magwyr a Chil-y-coed yn golygu y gellid darparu gofal amserol a chefnogi parhad triniaethau. Roedd staff y dderbynfa yn defnyddio meini prawf i gynorthwyo'r broses gychwynnol o frysennu anghenion y claf ac roedd amserlenni priodol ar gyfer apwyntiadau.

Dywedwyd wrthym na fyddai'r cleifion yn aros yn hir am ofal arferol ar y cyfan, ac y byddai apwyntiadau triniaeth ar gael o fewn pythefnos fel arfer. Dywedodd y staff wrthym y byddai'r cleifion yn cael gwybod mewn da bryd pe bai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, ac y byddent yn cael cynnig apwyntiad arall pe bai angen.

Er mai diben system apwyntiadau'r practis oedd darparu gofal amserol, gwelsom nad oedd atgyfeiriadau gan y practis at wasanaethau eraill yn cael eu cwblhau na'u holrhain mewn modd amserol bob amser.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi adolygiadau wythnosol o atgyfeiriadau pellach ar waith er mwyn cefnogi parhad gofal rhwng gwasanaethau.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod dogfennau allweddol, megis naw egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, cofrestriad AGIC a gweithdrefn gwyno'r practis, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion nad ydynt yn gallu cyfathrebu yn Saesneg yn cael eu cefnogi drwy Language Line.

Nid oedd siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn y practis, ac nid oedd cofnod mewn nodiadau achos i ddangos bod dewis iaith y cleifion yn cael ei ystyried fel mater o

drefn. Dangosodd trafodaethau yn ystod yr arolygiad fod angen i'r practis wneud y Cynnig Rhagweithiol i siaradwyr Cymraeg ac, yn ystod y dydd, paratowyd arwydd 'laith Gwaith' i'w arddangos yn yr ardal aros. Cafodd adran hanes meddygol y system cadw cofnodion electronig ei diweddarau hefyd fel y gellid cofnodi dewis iaith pobl.

Dim ond yn Saesneg ac mewn fformatau print bach yr oedd gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael ac felly nid oedd yn diwallu amrywiaeth o anghenion cyfathrebu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, megis print bras, fersiwn hawdd ei deall ac ieithoedd amgen.

Hawliau a chydaddoldeb

Gwelsom fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu hyrwyddo drwy bolisiau'r practis a hyfforddiant perthnasol i'r staff. Roedd nodweddion gwarchodedig yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Ddiben a'r Polisi Derbyn. Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i staff fod mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle.

Roedd mynediad gwastad i'r adeilad a'r ardaloedd trin ac roedd y toiledau i gleifion wedi'u haddasu er mwyn cefnogi cleifion ag anableddau corfforol. Roedd y rhan fwyaf o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion yn cytuno bod yr adeilad yn hygyrch (20/24). Dywedwyd wrthym fod cleifion a oedd yn mynd i'r practis mewn cadair olwyn naill ai'n gallu cael eu gweld yn y gadair ddeintyddol neu yn eu cadair olwyn, yn unol â'u gallu corfforol a'u dewis. Cawsom wybod hefyd y gallai enwau a rhagenwau cleifion gael eu diweddarau'n hawdd yng nghofnod y claf, a bod pob aelod o'r staff yn defnyddio'r manylion hyn er mwyn sicrhau y cyfathrebwyd yn briodol â'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle yn lân, yn daclus ac yn drefnus ar y cyfan. Roedd dŵr wedi gollwng yn gynharach yn yr wythnos ac ymatebwyd i hyn ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel ac i darfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Gwelsom fod asesiad risg iechyd a diogelwch ffurfiol yn cael ei gwblhau gan contractwr bob dwy flynedd a bod argymhellion yn cael eu rhoi ar waith. Dywedwyd wrthym fod y staff hefyd yn cwblhau archwiliadau gweledol o'r amgylchedd ac yn uwchgyfeirio materion i'r rheolwr cofrestredig ar unwaith. Fodd bynnag, fel proses anffurfiol a gaiff ei chwblhau ar sail ad hoc, gallai hyn olygu nad oedd materion yn cael eu nodi nac yn cael eu datrys mor rhagweithiol â phosibl. Nododd un sylw a gafwyd drwy holiadur AGIC i staff bryder ynglŷn â lleithder yn yr adeilad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system fwy ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal a dogfennu asesiadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r amgylchedd.

Roedd yr eitemau o gyfarpar deintyddol a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis mewn cyflwr da ac roedd digon ohonynt ar gael fel bod modd eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo angen. Roedd dyfeisiau ailorchuddio nodwyddau yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn ddiogel i'r cleifion a'r staff.

Gwnaethom edrych ar gofnodion cynnal a chadw cyfarpar diogelwch trydan, nwy a tân a nodwyd bod yr holl asedau wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar i gadarnhau eu bod yn ddiogel. Roedd eitemau diogelwch tân yn yr ardal i staff yr oedd eu dyddiad defnyddio wedi mynd heibio eisoes wedi cael eu hailarchebu, ac roedd cyfarpar nad oedd yn addas i'w ddefnyddio wedi cael ei labelu i nodi hynny. Gwelsom dystiolaeth gynhwysfawr o ymarferion tân rheolaidd, a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân. Roedd mannau ymgynnull pe bai tân i'w gweld yn glir, ac roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau i'r allanfeydd brys ar y llawr gwaelod. Nid oedd arwyddion ar gyfer sut i gyrraedd yr allanfeydd brys o lawr cyntaf yr adeilad, ble roedd cyfleusterau a swyddfeydd y staff, a oedd o bosibl yn peri risg i'r staff ac ymwelwyr pe bai argyfwng.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod arwyddion ar gyfer y llwybrau dianc rhag tân o lawr cyntaf yr adeilad i gefnogi'r staff ac ymwelwyr pe bai argyfwng.

Roedd cyfleusterau newid a lluniaeth i'r staff ar gael i ffwrdd o ardaloedd y cleifion.

Roedd tystysgrifau Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr a Chyhoeddus y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w gweld yn yr ardaloedd priodol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau priodol ar waith a bod amserlen lanhau gadarn yn cefnogi arferion glanhau cyffredinol effeithiol. Roedd y cyfleusterau dihalogi yn addas. Roedd y peiriant uwchsain yn cael ei brofi'n rheolaidd ond nid oedd wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y peiriant uwchsain yn cael ei wasanaethu bob blwyddyn.

Roedd y defnydd o gyfarpar i ddal byriau yn golygu y gallai'r deintyddion gael gafeal ar fyriau pan oedd angen. Fodd bynnag, gwnaethom drafod y broses o roi byriau mewn bagiau a'u dyddio er mwyn cynnal eu glendid, fel cyfarpar arall.

Nid oedd pob ymarferydd deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant dihalogi penodol, a thrafodwyd bod hyn yn enghraifft o arfer gorau yn ystod yr arolygiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ymarferwyr deintyddol yn cwblhau modiwl dihalogi penodol o fewn y pecyn hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod rhagofalon addas ar waith i ymateb i gleifion sy'n nodi bod ganddynt COVID neu salwch anadlol arall er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r salwch wrth gefnogi iechyd priodol y geg. Roedd y staff yn ymwybodol o'r asesiad risg ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gwybod sut i gael gafeal ar wasanaethau iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd pe bai eu hangen arnynt.

Gwelsom fod contractau a chyfleusterau addas ar waith ar gyfer rheoli gwastraff. Roedd rhagofalon hefyd ar waith yn unol â'r gweithdrefnau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith. Roedd y cleifion yn cael eu hatgoffa drwy arwyddion, holiaduron hanes meddygol ac ar lafar ar ddechrau ymgynghoriadau, i roi gwybod i'w deintydd am unrhyw ddiweddariadau i'w hiechyd. Roedd oergell newydd wedi cael ei harchebu ac roedd disgwyl iddi gael ei

dosbarthu'n fuan i ddatrys mater a nodwyd gydag ystod tymereddau'r oergell cyn yr arolygiad.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu cadw mewn drôr addas dan glo, ond nid oedd cofnodion o rifau cyfresol yn cael eu cadw ar wahân, a fyddai'n gwella diogelwch.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i rifau cyfresol padiau presgripsiwn gael eu cofnodi er mwyn cefnogi'r broses adrodd pe bai achos o ddwyn.

Nodwyd bod polisi Midazolam ar waith ond roedd angen ei weithredu'n fwy cadarn er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a rheoli meddyginiaethau'n dryloyw.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- **Bod dosau Midazolam yn cael eu nodi'n gliriach er mwyn sicrhau y caiff ei gweinyddu'n addas i oedolion a phlant**
- **Bod y ffordd y caiff camau i waredu Midazolam eu cofnodi yn gynhwysfawr.**

Roedd padiau diffibriliwr i oedolion yn y pecyn adfywio brys. Nododd y staff eu bod wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r padiau i oedolion ar gyfer plant, ond nid oedd gwybodaeth ysgrifenedig i atgoffa'r staff sut i wneud hyn pe bai argyfwng pediatrig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg a chynllun gweithredu ffurfiol yn cael eu creu i gefnogi'r staff pe bai argyfwng meddygol pediatrig lle mae angen defnyddio'r diffibriliwr.

Nodwyd bod yr holl gyffuriau a chyfarpar meddygol brys eraill yn eu lle, gan gynnwys silindrau ocsigen a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol ac yr oedd y staff wedi'u hyfforddi i'w defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod y staff yn glir o ran eu cyfrifoldebau pe baent yn nodi pryder diogelu mewn perthynas ag un o'u cleifion. Fodd bynnag, nid oedd y polisi diogelu yn cynnwys rhif cyswllt ar gyfer tîm diogelu oedolion yr awdurdod lleol. Nid oedd y camau gweithredu ar gyfer plant na ddaethpwyd â nhw i apwyntiadau ar gael yn hawdd 'chwaith. Diweddarwyd polisi diogelu'r practis ar ddiwrnod yn arolygiad.

Er bod person dynodedig ar gyfer diogelu yn y practis, nid oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogelu Plant a Diogelu Oedolion i lefel 3, a fyddai'n sicrhau bod

yr unigolyn yn gallu cyflawni ei ddyletswydd gofal yn llawn pe bai pryder diogelu yn codi.

Rhaid i'r person dynodedig ar gyfer diogelu gwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogelu Plant a Diogelu Oedolion hyd at lefel 3.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwnaethom nodi bod cyfarpar clinigol yn y practis yn briodol ar gyfer ei ddiben bwriadedig. Roedd protocolau ac asesiadau risg addas yn sail i'r ffordd y cyflëwyd risgiau a manteision archwiliadau pelydr-X i gleifion ac yn golygu y gellid cael cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad, a chyfiawnhau, cwblhau a dadansoddi'r delweddau. Roedd y deintyddion wedi cwblhau hyfforddiant ar Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Y prif ddeintydd oedd y Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd enwebedig. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth ei fod wedi cwblhau hyfforddiant i gefnogi'r rôl hon.

Rhaid i'r prif ddeintydd ymgymryd â hyfforddiant Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd i gefnogi ei rôl o oruchwyllo cydymffurfiaeth â mesurau diogelu rhag ymbelydredd.

Cawsom wybod bod archwiliadau radiograffeg mewnol yn cael eu cwblhau, ond nid oedd adnoddau sicrhau ansawdd cenedlaethol yn cael eu defnyddio. Gwnaethom drafod manteision rhoi archwiliadau IR(ME)R blynyddol Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar waith i'r practis. Roedd contract ar waith gyda Pheiriannydd Ffiseg Feddygol ac roedd tystiolaeth bod cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Dywedwyd wrthym fod canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol ac y byddai cyngor ychwanegol yn cael ei geisio yn ôl yr angen. Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol i'w gweld ar waliau'r deintyddfeydd fel y gallai'r deintyddion gael gafael ar gymorth yn hawdd er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o 10 claf yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion electronig a phapur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd amserlenni cadw addas ar waith.

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod strwythurau'r geg yn cael eu hasesu mewn modd cynhwysfawr a gweithdrefnau a oedd yn briodol ar gyfer sgrinio am ganser. Roedd hanes meddygol yn cael ei wirio ar lafar hefyd, ond nodwyd y gallai hyn gael ei gofnodi'n gliriach ar y system electronig.

Roedd tystiolaeth bod dewisiadau ehangach o ran ffordd o fyw a all effeithio ar iechyd y geg yn cael eu hystyried yn anghyson, ac nid oedd y defnydd o alcohol na deiet yn cael eu hystyried. Lle nodwyd bod cleifion yn smygu tybaco, aethpwyd ati i hybu iechyd ar lafar mewn perthynas â hyn, ond nid oedd unrhyw atgyfeiriadau pellach ar gyfer rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnig na'u gwneud a allai gefnogi newid mewn ffordd o fyw yn fwy effeithiol.

Gwnaethom nodi rhai anghysondebau o ran cofnodi a graddio radiograffau pan oedd angen y rhain, ac nad oedd y broses o gyfiawnhau gwrthfotigau yn cydymffurfio â'r canllawiau. Dangosodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt hefyd nad oedd cynlluniau triniaethau yn cael eu llofnodi gan gleifion fel mater o drefn. Hefyd, dangosodd yr ymatebion i holiadur AGIC i gleifion fod y graddau yr oedd y cleifion yn ymwneud â chynllunio eu triniaeth yn amrywio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn a sicrhau bod cofnodion clinigol yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfoes yn unol â safonau proffesiynol a gofynion rheoliadol.

Effeithlon

Effeithlon

Nodwyd gennym fod y cleifion yn symud drwy'r llwybrau triniaeth mewnol yn effeithlon, a bod atgyfeiriadau mewnol yn cael eu gwneud yn rhwydd drwy'r system gyfrifiadurol. Gwelsom fod y system apwyntiadau, y rotas deintyddol a'r gwaith traws-safle gyda phractis Cil-y-coed yn sicrhau bod cymysgedd priodol o sgiliau a threfniadau cyflenwi deintyddol ar gyfer cleifion y GIG a rhai preifat.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd yr ymatebion i holiadur staff AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod lefelau staffio, cymysgedd sgiliau ac adnoddau priodol i'w galluogi i ateb galw eu swyddi a darparu gofal a chymorth da i'w cleifion. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf mai gofal cleifion yw prif flaenoriaeth y practis ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir pe bai angen gofal deintyddol ar eu ffrindiau neu berthnasau yn y practis. Argymhellwyd y practis fel lle da i weithio.

Nododd un aelod o'r staff:

"Rydym yn bractis cyfeillgar, croesawgar a gofalgarn lle caiff lles pennaf y claf ei flaenoriaethu bob amser...rydym bob amser yn agored i awgrymiadau gan y staff ac adborth o arolygon cleifion."

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Gwnaethom nodi bod strwythur rheoli clir ar waith ynghyd â diffiniad o rolau a chyfrifoldebau pob aelod o'r staff er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn aelodau hirsefydlog o'r tîm a nodwyd eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cefnogi rolau ei gilydd. Gwnaethant nodi hefyd eu bod yn gweithio ar draws safleoedd y practis yn rheolaidd er mwyn darparu arweinyddiaeth weledol a chymorth i'r tîm cyfan.

Gwnaethom edrych ar gofnodion o gyfarfodydd staff a dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu cynnal bob mis fel arfer, neu yn ôl yr angen. Roedd y cyfarfodydd hyn yn rhai ar y cyd ar gyfer dau safle Teeth for Life, a gwahoddwyd pob aelod o'r staff i gyflwyno eitemau i'w trafod. Gwelsom fod system electronig yn cael ei rhoi ar waith er mwyn storio cofnodion cyfarfodydd, polisiau, gweithdrefnau, ffeiliau personél a hysbysiadau a gwybodaeth berthnasol arall yn ddiogel. Roedd systemau negeseua hefyd yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth ac wedi'u strwythuro mewn ffordd a oedd yn sicrhau bod gwybodaeth bwysig yn cael mwy o sylw ac y gellid cuddio sgysiau mwy anffurfiol yn hawdd drwy hidlo.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi defnyddio adnodd datblygu tîm y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth (MMD) yn flaenorol ond nad oedd wedi cwblhau hwn yn ddiweddar. Gwnaethom drafod y gallai cwblhau adnoddau datblygu tîm lywio camau pellach i ddatblygu'r tîm a'r gwasanaethau a ddarperir ac

awgrymu Matrics Aeddfedrwydd ac Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel opsiynau addas.

Gwelsom fod polisïau allweddol ar waith a bod Datganiad o Ddiben y practis wedi cael ei adolygu'n ddiweddar, er bod angen diweddarau'r fformat a'r cynnwys ymhellach fel bod y rhain yn rhoi gwybodaeth broffesiynol gynhwysfawr i gleifion. Nid oedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu a diweddarau Datganiad o Ddiben y practis yn unol â'r rheoliadau a'i anfon i AGIC.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith da ymysg y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith a dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon neu awgrymiadau i'r rheolwyr.

Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn cael arfarniad blynyddol a bod y rheolwyr yn ymateb i adborth a cheisiadau am hyfforddiant a oedd yn deillio o'r rhain, gan sicrhau datblygiad proffesiynol a datblygiad y practis. Dywedodd rheolwyr y practis wrthym eu bod yn rhan o rwydweithiau proffesiynol sy'n darparu cymorth a chyfleoedd i feincnodi.

Gwnaethom edrych ar gofnodion naw aelod o'r staff i gyd a gwelsom gydymffurfiaeth lawn bron â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Nid oedd y staff gweinyddol wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 ar atal a rheoli heintiau. Cwblhawyd yr hyfforddiant hwn erbyn diwedd yr arolygiad.

Roedd system yn cael ei rhoi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant a galluogi'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Unwaith y bydd wedi cael ei hymgorffori'n llawn, bydd y system hon yn cefnogi rheolwr y practis yn fwy effeithiol yn ei rôl.

Roedd trefniadau ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol gweithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig. Roedd gan bob aelod perthnasol o'r staff gofrestrriad cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnïad proffesiynol ar waith. Roedd cofnodion sgrinio iechyd priodol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelwyd tystiolaeth bod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd. Gwnaethom drafod y syniad o gwblhau hunanddatganiadau er mwyn rhoi mwy o sicrwydd bod gan bob aelod o'r staff gymeriad da o hyd rhwng gwiriadau ffurfiol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi bod yn eu swydd ers pedair blynedd o leiaf. Roedd geirdaon ar lafar yn cael eu casglu'n gyffredinol, ond nid oedd unrhyw beth wedi'i ddogfennu. Nid oedd templed ar gyfer proses sefydlu 'chwaith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiffinio gweithdrefnau recriwtio a sefydlu cadarn a'u rhoi ar waith er mwyn helpu i gefnogi pob aelod newydd o staff yn y practis.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael yn yr ardal aros er mwyn i gleifion gyflwyno sylwadau ysgrifenedig a chawsom wybod bod pob claf yn cael dolen i ffurflen ar-lein ar gyfer rhoi adborth yn dilyn apwyntiadau. Roedd rheolwr y practis yn bwrw golwg dros yr adborth ac roedd adborth arbennig o dda yn cael ei rannu â'r tîm. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion na digwyddiadau wedi codi, ac nad oedd pryderon yn cael eu cofnodi. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi pryderon ac adborth yn llawn, yn ogystal â chwynion, a choladu themâu er mwyn dysgu gwersi ehangach.

Gwelsom fod gweithdrefn gwyno ar waith ond roedd fersiynau gwahanol ohoni ar gael i gleifion ar wefan y practis ac ar y safle. Nid oedd rhai o'r amserlenni ar gyfer ymchwilio ac ymateb yn unol â phroses Gweithio i Wella y GIG 'chwaith. Ni wnaeth pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion nodi eu bod yn gwybod sut yr ymdrinnir â chwynion, a oedd yn awgrymu nad oedd y cleifion yn cael eu cyfeirio at y broses gwyno yn glir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gweithdrefn gwyno glir ar gyfer y practis yn cael ei darparu'n gyson ar y wefan ac ar y safle, yn unol â phroses Gweithio i Wella, a'i bod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC fel dull y gall cleifion ei ddefnyddio i fynegi pryderon.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwelsom fod y practis yn symud tuag at argraffiadau digidol. Roedd y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial ar gyfer llunio cofnodion o gyfarfodydd staff hefyd yn cael ei dreialu, ac roedd y staff yn gwirio'r cofnodion a gynhyrchwyd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o ofynion llywodraethu gwybodaeth ond hefyd â phwy y dylid rhannu gwybodaeth pe bai angen ar gyfer diogelwch y cleifion a'r cyhoedd.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd deintyddion yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn rhannu ymarfer clinigol. Roedd archwiliadau hefyd yn cael eu cynnal i gryfhau agweddau clinigol a gweithredol ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd yr archwiliadau hyn yn cynnwys atal a rheoli heintiau, gwastraff gofal iechyd a mynediad i bobl anabl. Ni welsom dystiolaeth bod archwiliad ynghylch rhoi'r gorau i smygu wedi cael ei gwblhau, a fyddai'n gwneud cyfraniad dilys at ddatblygu arferion hybu iechyd mwy cadarn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau ynghylch rhoi'r gorau i smygu yn cael eu cynnal yn y practis.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom fod y practis mewn cysylltiad â darparwyr gofal deintyddol eraill yn yr ardal leol a'u bod wedi cytuno i gynorthwyo gyda pharhad y busnes pe bai angen. Roedd y practis hefyd yn cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill pe bai hynny'n briodol.

Yn ogystal ag arolygiadau AGIC, gwnaethom nodi hefyd fod arolygiadau eraill yn cael eu cynnal er mwyn monitro'r gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG a ddarparwyd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd y staff gweinyddol yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau.	Mae'n bosibl nad yw gweithdrefnau atal a rheoli heintiau wedi'u rhoi ar waith yn llawn gan gynyddu'r risg o Heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.	Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig a Rheolwr y Practis.	Cwblhaodd y staff gweinyddol y modiwl ar atal a rheoli heintiau ar y llwyfan hyfforddiant ar-lein ar ddiwrnod yr arolygiad.
Nid oedd yr holl wybodaeth i gefnogi camau i ddiogelu oedolion neu blant ar gael yn hawdd.	Nid oedd gwybodaeth ar gael yn hawdd i gefnogi'r staff i roi gwybod am bryderon neu eu holrhain pe bai angen.	Trafodwyd y mater â'r Rheolwr Cofrestredig a Rheolwr y Practis.	Diweddarwyd polisi diogelu'r practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Teeth for Life, Magwyr

Dyddiad yr arolygiad: 02 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Teeth for Life, Magwyr

Dyddiad yr arolygiad: 02 Hydref 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd y cleifion bob amser yn gwybod sut i gysylltu â'r practis pe bai materion deintyddol yn codi ar ôl cael triniaeth.	Darparu gwybodaeth fwy cadarn i gleifion mewn perthynas â beth i'w wneud os bydd materion deintyddol yn codi yn dilyn apwyntiadau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Bydd y practis yn rhoi rhagor o fesurau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn gwybod sut i gysylltu â'r practis, megis cynnwys gwybodaeth mewn cynlluniau triniaeth	Adam Lody	Wedi'i gwblhau
2.	Nid oedd atgyfeiriadau gan y practis at wasanaethau eraill yn	Rhoi adolygiadau wythnosol o atgyfeiriadau ar waith er mwyn cefnogi	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) - Amserol	Creu cofnodlyfr atgyfeiriadau ar y feddalwedd	Adam Lody, Rebecca Anderson	Wedi'i gwblhau

	cael eu cwblhau na'u holrhain mewn modd amserol bob amser.	parhad gofal rhwng gwasanaethau.		gydymffurfio a'i lenwi bob tro y caiff atgyfeiriad ei wneud - olrhain yn wythnosol	a Jessica Oliver (deintyddion)	
3.	Roedd gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael yn Saesneg ac mewn fformatau print bach yn unig.	Sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, megis print bras, fersiwn hawdd ei deall ac ieithoedd amgen.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 13(1)(a)	Darparu gwybodaeth graidd i gleifion yn Gymraeg ac mewn fformatau print bras	Emma Baker	4 wythnos
4.	Archwiliadau gweledol anffurfiol o'r amgylchedd yn unig rhwng yr asesiad lechyd a Diogelwch a gynhelir ddwywaith y flwyddyn.	Rhoi system fwy ffurfiol ar waith ar gyfer cynnal a dogfennu asesiadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r amgylchedd.	Rheoliad 16(1)(b)	Cynnal asesiadau risg ieuchyd a diogelwch mewnol bob blwyddyn gan ddefnyddio'r templed ar y feddalwedd gydymffurfio	Emma Baker	Wedi'i gwblhau
5.	Dim ond ar y llawr gwaelod yr oedd arwyddion ar gyfer y llwybrau dianc rhag tân.	Dylai arwyddion ar gyfer y llwybrau dianc rhag tân fod ar lawr cyntaf a llawr gwaelod yr adeilad i gefnogi'r cleifion, y staff ac ymwelwyr pe bai argyfwng.	Rheoliad 22(4)(b)	Ychwanegu arwyddion/sticeri ar gyfer y llwybr dianc rhag tân ar y llawr cyntaf er mwyn dangos y llwybr cywir	Emma Baker	2 wythnos

6.	Nid oedd y peiriant uwchsain wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar.	Dylai'r peiriant uwchsain gael ei wasanaethu bob blwyddyn.	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru WHTM 01-05	Trefnu i'r peiriant uwchsain gael ei wasanaethu gan y peiriannydd	Emma Baker	Wedi'i drefnu
7.	Nid yw pob ymarferydd deintyddol wedi cwblhau modiwl dihalogi'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau.	Dylai pob ymarferydd deintyddol ymgymryd â hyfforddiant dihalogi penodol a chadw tystiolaeth o hyn.	Rheoliad 8	Adolygu DPP yr ymarferwyr deintyddol a sicrhau bod pob un wedi cwblhau'r modiwl dihalogi neu gwrs ar wahân	Emma Baker	Wedi'i gwblhau
8.	Nid oedd rhifau cyfresol padiau presgripsiwn yn cael eu cofnodi ar wahân i'r padiau.	Rhoi system ar waith er mwyn i rifau cyfresol padiau presgripsiwn gael eu cofnodi.	Rheoliad 13(4)(a)	Llenwi'r cofnodlyfr rheoli Padiau Presgripsiwn ar y feddalwedd gydymffurfio pan ddaw padiau i law	Emma Baker	Wedi'i gwblhau
9.	Nid oedd dosau Midazolam yn cael eu nodi'n glir er mwyn sicrhau y caiff ei gweinyddu'n addas i oedolion a phlant.	Dylid nodi dosau Midazolam yn gliriach er mwyn sicrhau y caiff ei gweinyddu'n addas i oedolion a phlant	Rheoliad 13(4)(a)	Sicrhau bod dosau Midazolam i blant yn cael eu nodi'n glir ar wahân i'r dosau i oedolion	Emma Baker	Wedi'i gwblhau

10.	Nid oedd cofnodion cynhwysfawr ar gyfer gwaredu Midazolam.	Angen cofnodi'r broses o waredu Midazolam mewn modd mwy cynhwysfawr.	Rheoliad 13(4)(a)	Dechrau a llenwi cofnodlyfr gwaredu Midazolam pan fydd y practis yn cael gwared ar Midazolam nesaf	Emma Baker	Wedi'i gwblhau
11.	Dim padiau diffibriliwr pediatrig.	Mae angen asesiad risg a chynllun gweithredu ffurfiol i gefnogi'r staff pe bai argyfwng meddygol pediatrig lle mae angen defnyddio'r diffibriliwr.	Rheoliad 31(2)(b)	Prynu padiau diffibriliwr pediatrig	Adam Lody	Wedi'i gwblhau
12.	Nid yw'r person dynodedig ar gyfer diogelu wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel 3 ar gyfer plant ac oedolion.	Dylai'r person dynodedig ar gyfer diogelu gwblhau'r hyfforddiant ar Ddiogelu Plant a Diogelu Oedolion hyd at lefel 3 a chadw tystiolaeth o hyn.	Rheoliad 14(1)(b)	Bydd yr arweinydd diogelu yn dod o hyd i gwrs lefel 3 ar ddiogelu plant ac yn ei gwblhau.	Adam Lody	Wedi'i gwblhau 27/10/2025
13.	Nid oedd y Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd enwebedig wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.	Dylai'r Prif Ddeintydd ymgymryd â hyfforddiant Goruchwylydd Diogelu Rhag Ymbelydredd.	Rheoliad 17(3)(a)	Bydd y Prif Ddeintydd yn cadw lle ar gwrs i Oruchwylwyr Diogelu Rhag Ymbelydredd ac yn ei gwblhau	Adam Lody	2 wythnos (cwrs wedi dechrau)

14.	Nodwyd anghysondebau mewn cofnodion clinigol.	Dylai'r rheolwr cofrestredig fynd i'r afael â'r anghysondebau a sicrhau bod cofnodion clinigol yn gywir, yn gyflawn ac yn gyfoes yn unol â safonau proffesiynol a gofynion rheoliadol.	Rheoliad 20	Cynnal archwiliadau rheolaidd a chadarn o gofnodion clinigol a gweithredu'n briodol mewn perthynas â'r canfyddiadau	Adam Lody	Wedi'i gwblhau
15.	Roedd angen diweddarau'r Datganiad o Ddiben yn unol â'r rheoliadau.	Dylid adolygu'r Datganiad o Ddiben ac anfon y fersiwn wedi'i diweddarau at dîm cofrestru AGIC.	Rheoliad 5(atodlen 1)	Diweddarau'r Datganiad o Ddiben fel yr awgrymwyd yn ystod yr arolygiad a hysbysu AGIC	Adam Lody	Wedi'i gwblhau
16.	Prosesau recriwtio a sefydlu anffurfiol yn unig.	Rhaid diffinio gweithdrefnau recriwtio a sefydlu cadarn a'u rhoi ar waith.	Rheoliad 18(1)(i)	Defnyddio'r adnoddau a'r matrices recriwtio a sefydlu yn y feddalwedd gydymffurfio yn gadarn wrth benodi staff yn y dyfodol	Emma Baker	Wedi'i gwblhau
17.	Anghysondebau yn y gweithdrefnau cwyno sydd ar y wefan ac ar	Dylid darparu gweithdrefn gwyno glir ar gyfer y practis ar y wefan ac ar y	Rheoliad 21	Symleiddio a chywiro'r weithdrefn	Adam Lody	Wedi'i gwblhau

	safle'r practis ac anghysondeb â phroses Gweithio i Wella.	safle sy'n gyson â phroses Gweithio i Wella ac yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.		gwyno fel ei bod yn unol â phroses Gweithio i Wella yn y polisi ac ar y wefan		
18.	Dim archwiliad ynghylch rhoi'r gorau i smygu wedi'i gwblhau.	Dylid cynnal archwiliadau rheolaidd ynghylch rhoi'r gorau i smygu.	Rheoliad 16(1)	Cwblhau archwiliad ynghylch rhoi'r gorau i smygu a chynnal archwiliadau pellach yn rheolaidd	Adam Lody, Rebecca Anderson a Jessica Oliver (deintyddion)	2 fis i gwblhau'r archwiliad

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Adam Lody

Teitl swydd: Prif Ddeintydd

Dyddiad: 29/10/2025